Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

Adolygiad o Weithredu'n Lleol ar Fioamrywiaeth

Rhagair

Mae newidiadau yn ein ffordd o fyw yn cael effaith fwyfwy andwyol ar rywogaethau planhigion ac anifeiliaid. Mae gwarchod bioamrywiaeth wedi datblygu'n derm defnyddiol ar gyfer disgrifio un o'r materion mwyaf dyrys sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol: sef, sut i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n prysur dyfu heb beryglu planhigion ac anifeiliaid, a'u cynefinoedd, yn eu holl amrywiaeth a'u helaethrwydd.

Mae'n ddyletswydd ar y Cynulliad ystyried bioamrywiaeth wrth arfer ei holl swyddogaethau; a chymryd camau i wneud mwy i warchod bioamrywiaeth, neu annog eraill i wneud hynny. Yng Nghymru, ochr yn ochr â mannau eraill yn y DU, defnyddir Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl'au) er mwyn rhoi targedau cenedlaethol ar gyfer diogelu cynefinoedd a rhywogaethau ar waith yn lleol, gan adlewyrchu gwerthoedd lleol ac, yn anad dim, er mwyn datblygu partneriaethau bioamrywiaeth lleol sy'n rhai cynaliadwy. Wrth gynnal yr adolygiad, canolbwyntiwyd ar hynt y gwaith o weithredu'r cynlluniau lleol hyn a nodwyd y rhwystrau sydd wedi wynebu'r partneriaethau lleol.

Roedd brwdfrydedd ac ymroddiad y partneriaethau lleol yn amlwg, ond roedd yno hefyd rwystredigaeth yn eu plith ynghylch y diffyg arweiniad a chefnogaeth o du gwleidyddion a'r asiantaethau perthnasol. Rydym yn argymell bod gwleidyddion cenedlaethol a lleol yn dangos eu hymrwymiad i fioamrywiaeth trwy roi lle canolog iddi wrth ystyried polisi, a thrwy roi cefnogaeth i'r gwaith o gyrraedd targedau cenedlaethol ar y lefel leol. Law yn llaw â'r gefnogaeth hon gan y gwleidyddion, mae'n rhaid wrth adnoddau, ac rydym yn argymell bod dull penodol o ariannu gweithredu lleol ar fioamrywiaeth yn cael ei ddatblygu. Trwy sicrhau ymrwymiad gwleidyddol ac ariannol y bobl hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau'n lleol, a thrwy ennyn mwy o ddealltwriaeth am bwysigrwydd bioamrywiaeth, byddai modd i'r partneriaethau lleol ganolbwyntio ar *weithredu* eu blaenoriaethau o ran cadwraeth.

Ar ran y Pwyllgor, yr wyf yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan obeithio y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn gweithredu'r argymhellion sydd ynddo. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

RICHARD EDWARDS AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth
Chwefror 2003

Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

Richard Edwards AC (Cadeirydd)
Preseli Sir Benfro

Sue Essex AC (Gweinidog yr Amgylchedd)
Gogledd Caerdydd

Eleanor Burnham AC
Gogledd Cymru

David Davies AC
Mynwy

Janet Davies AC
Gorllewin De Cymru

Brian Hancock AC
Islwyn

Val Lloyd AC
Dwyrain Abertawe

Tom Middlehurst AC
Alun a Glannau Dyfrdwy

Karen Sinclair AC
De Clwyd

Phil Williams AC
Dwyrain De Cymru

Cynnwys

	Crynodeb o'r Argymhellion
Adran 1	Cyflwyniad
Adran 2	Y Cefndir Polisi
Adran 3	Cymorth i weithredu'n lleol ar fioamrywiaeth
Atodiad 1	Yr Ymatebwyr
Atodiad 2	Hynt y Gwaith o Roi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar Waith

Crynodeb o'r Argymhellion

Rydym yn argymell:

Ymrwymiad gwleidyddol i fioamrywiaeth ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol

1 bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arweiniad yn y maes trwy roi rhan ganolog i ystyriaethau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn ei pholisïau a'i blaenoriaethau hi, a rhai'r cyrff y mae'n eu noddi.

2 bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried sut i gryfhau ymrwymiad llywodraeth leol i weithredu'n lleol ar fioamrywiaeth, ac yn pwyso ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i fabwysiadu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl'au) fel canllawiau cynllunio atodol, yn unol â'r canllawiau polisi cynllunio, a'u defnyddio'n sail ar gyfer eu Strategaethau Cymunedol;

3 bod Partneriaethau Bioamrywiaeth Cymru yn mynd ati i sicrhau bod gwaith y strategaethau a'r partneriaethau lleol a chenedlaethol yn cael ei gydgysylltu'n well, a'u bod yn rhoi mwy o bwyslais ar bennu targedau'n lleol;

4 bod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cymryd yr awenau wrth ddatblygu strategaeth a chanllawiau cysylltiedig ar fonitro ac adrodd am gamau gweithredu lleol ym maes bioamrywiaeth;

Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i weithredu ar yr ymrwymiad gwleidyddol

5 bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal adolygiad o'r trefniadau cyllido er mwyn sicrhau bod y ffynonellau cyllido sydd ar gael i gefnogi camau gweithredu lleol ar fioamrywiaeth yn gwbl glir, ac er mwyn eu symleiddio a'u cysoni;

6 bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod arian penodol ar gael i ariannu'r Hwylusydd CGBLl a benodwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac i ariannu swyddog CGBLl parhaol a llawnamser ar gyfer pob partneriaeth, ac yn ystyried dulliau penodol o ariannu camau gweithredu ar fioamrywiaeth yn lleol, o bosibl trwy ariannu partneriaethau'n uniongyrchol;

Sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd ar gael

7 bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu i ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol o Ganolfannau Cofnodion Lleol, gan adeiladu ar y prosiect peilot a gafwyd ym Mhowys;

8 bod cyrff Cymru gyfan, megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried sut i drefnu bod mwy o gymorth gan

arbenigwyr ar gael yn lleol, a sut i ychwanegu at arbenigedd ecolegol yr awdurdodau lleol, ac at eu harbenigedd mewn perthynas â CGBLl'au.

9 bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ELWa yn ystyried sut i: sicrhau bod mwy o gyrsiau mewn gwyddor cadwraeth, tacsonomeg a sgiliau ymarferol ym maes rheoli tir yn cael eu cynnig gan sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a'u bod yn ceisio denu mwy o fyfyrwyr i ddilyn y cyrsiau hynny; annog y prifysgolion i sicrhau bod ymchwil academaidd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ymchwil yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

Gweithredu'n lleol trwy bartneriaethau

10 bod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn sefydlu 'gwobrau bioamrywiaeth' er mwyn tynnu sylw at arferion da o ran cadwraeth ac er mwyn annog sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

1 Cyflwyniad

Ein nod

1.1. Mae'n ddyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried bioamrywiaeth wrth arfer ei holl swyddogaethau; a chymryd camau i wneud mwy i warchod bioamrywiaeth, neu annog eraill i wneud hynny. Yng Nghymru, ochr yn ochr â mannau eraill yn y DU, defnyddir Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl'au) er mwyn rhoi targedau cenedlaethol ar gyfer diogelu cynefinoedd a rhywogaethau ar waith yn lleol, a hefyd er mwyn rhoi ar waith yr elfen yn y strategaethau lleol ar ddatblygu cynaliadwy sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Yn ôl un o Ddangosyddion Perfformiad newydd y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2002-03, mae'n ofynnol i bob un o'r awdurdodau lleol roi'r Cynlluniau Gweithredu hyn ar waith yn eu hardaloedd[1].

1.2. Wrth gynnal ein hadolygiad, canolbwyntiwyd ar y *camau gweithredu lleol* hyn i gefnogi a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Dyma'r cylch gorchwyl ar gyfer ein hadolygiad: "Adolygu hynt y gwaith hyd yn hyn a sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar waith ym mhob ardal yng Nghymru, a nodi'r camau pellach y mae angen eu cymryd yn genedlaethol ac yn lleol i helpu'r partneriaethau i'w rhoi ar waith."

Ymgynghori

1.3. Yn ystod haf 2002 buom yn gofyn i amrywiaeth eang o gyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol am eu sylwadau am y camau yr oedd angen eu cymryd yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Yn benodol, gofynnwyd am y wybodaeth ganlynol:

- *Adroddiadau* – gan y partneriaethau am hynt y gwaith o baratoi a rhoi Cynlluniau Gweithredu ac arferion gorau ar waith, a'r rheini'n rhai y gallai rhannau eraill o Gymru eu hefelychu.

- *Materion allweddol* - yr hyn sy'n rhwystro'r partneriaethau rhag paratoi a rhoi'r Cynlluniau Gweithredu ar waith, gan gyfeirio'n benodol at: pa mor effeithiol yw'r partneriaethau CGBLl a beth yw rôl y partneriaid yn ystod y gwahanol gamau o ddatblygu a rhoi'r Cynlluniau Gweithredu ar waith; cydgysylltu'r gwaith ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol (o ran y cyrff a'r cynlluniau), yn benodol, o ran cytuno ar dargedau a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu; yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o baratoi a rhoi'r CGBLl'au ar waith; y canllawiau sydd ar gael i'r partneriaid ac eraill; y trefniadau ar gyfer rhoi rhan i amryfal grwpiau yn y gymuned leol; sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd yn ymwneud â bioamrywiaeth ar gael; a threfniadau ar gyfer monitro'r broses ac adrodd amdani.

[1] Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002 Rhif 257 (W.80)

- *Y camau* y mae angen eu cymryd yn lleol ac yn genedlaethol i helpu partneriaethau'r Cynlluniau Gweithredu.

1.4. Ymatebodd tri deg tri o unigolion a chyrff i'n cais am sylwadau, a cheir rhestr o'r ymatebwyr yn **Atodiad 1**. Cafodd copïau o'r cyflwyniadau a anfonwyd trwy'r e-bost eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cymru.gov.uk At ei gilydd, roedd cytundeb barn ynghylch y prif ffactorau sy'n rhwystro'r partneriaid rhag rhoi camau gweithredu bioamrywiaeth lleol ar waith, sef yn bennaf:

- *Y Partneriaethau* – er bod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i'r broses o gynllunio a darparu Cynlluniau Gweithredu llwyddiannus, roedd effeithiolrwydd y partneriaethau'n amrywio yn ôl yr ymrwymiad, yr arbenigedd a'r adnoddau a oedd ar gael yn lleol. Roedd llawer o'r farn fod y diffyg arweiniad a chefnogaeth o du gwleidyddion ac uwch swyddogion y cyrff sy'n bartneriaid yn rhwystro'r partneriaethau rhag gweithio'n effeithiol.

- *Cydgysylltu gwaith ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol* – roedd hyn yn cael ei wneud yn dda ar lefel y bartneriaeth leol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r farn fod angen gwella'r cysylltiadau rhwng y lefelau lleol a chenedlaethol. Ar y naill lefel a'r llall, nid oedd bioamrywiaeth yn cael ei hintegreiddio ddigon ag amcanion ehangach, ac nid oedd targedau bioamrywiaeth yn cael eu cydgysylltu ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol.

- *Adnoddau* – barnwyd mai diffyg arian o ffynonellau diogel oedd un o'r prif ffactorau a oedd yn rhwystro'r partneriaid rhag gweithredu camau bioamrywiaeth yn effeithiol, ac ystyriwyd bod hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth isel (yn lleol ac yn genedlaethol) a roddir gan wleidyddion i gadwraeth. Dywedwyd nad oedd llawer o gymorth ariannol yn cael ei roi i fioamrywiaeth, a bod yr holl gronfeydd, pob un â'i rheolau gwahanol, yn fiwrocrataidd ac yn rhai yr oedd angen cryn dipyn o amser i gael gafael arnynt.

- *Canllawiau* – at ei gilydd, barnwyd nad oedd hwn yn rhwystr o bwys, er bod rhai o'r farn bod angen hwyluso'r broses o gael gafael ar y canllawiau.

- *Sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd ar gael* – ystyriwyd bod diffyg gwybodaeth ac arbenigedd yn un o'r prif rwystrau, gan mai nifer bach o arbenigwyr a oedd ar gael, a chan fod y sylfaen sgiliau yn dirywio.

- *Monitro a chyflwyno adroddiadau* – mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod data lleol dibynadwy am fioamrywiaeth yn brin ac ynghylch y ffaith nad oes system ganolog ar gyfer casglu data, sydd wedi peri anhawster o ran pennu targedau lleol meintiol a chyfrannu at dargedau cenedlaethol.

1.5. Buom yn trafod y materion hyn gyda swyddogion lleol, partneriaid yn y sector gwirfoddol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, cynghorydd statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar fioamrywiaeth, yn ein cyfarfod ar 6 Tachwedd

2002[2]. Eto, roedd cytundeb barn am y camau yr oedd angen eu cymryd ar y lefel leol a chenedlaethol i helpu'r partneriaethau i roi'r cynlluniau hyn ar waith.

Ein hadroddiad

1.6. Mae Adran 2 yn egluro'r polisi sydd wrth wraidd y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, dulliau eraill o gefnogi bioamrywiaeth, a dyletswyddau'r Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi bioamrywiaeth.

1.7. Yn Adran 3, eir ati, yng ngoleuni'r ffactorau sy'n atal y gwaith hwn rhag mynd rhagddo, i grynhoi'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn rhoi cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol ar waith. Rydym yn argymell mwy o ymrwymiad gwleidyddol i fioamrywiaeth ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol, a digon o adnoddau. Rydym hefyd yn argymell bod angen mynd ati i sicrhau bod mwy o wybodaeth ac arbenigedd ar gael, a bod gwobrau bioamrywiaeth yn cael eu cynnig.

1.8. Mae'r Atodiadau'n rhestru'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad (Atodiad 1) ac yn amlinellu hynt y gwaith o roi'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar waith ledled Cymru (adroddiad gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) (Atodiad 2).

[2] EPT-15-02 – gellir gweld yr agenda a'r cofnodion ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar www.cymru.gov.uk

2 Y Cefndir Polisi

Bioamrywiaeth

2.1. Dyma sut y mae Erthygl 2 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, a luniwyd ym 1992, yn diffinio bioamrywiaeth: “Yr amrywiaeth ymysg organebau byw o bob ffynhonnell gan gynnwys, ymysg eraill, ecosystemau daearol, morol ac ecosystemau dŵr eraill a'r systemau ecolegol y maent yn rhan ohonynt”; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac amrywiaeth o ecosystemau. Gwarchod bioamrywiaeth yw'r term a ddefnyddir bellach i ddisgrifio'r mater mwyaf dyrys efallai o blith yr holl faterion sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, sef, sut i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n prysur dyfu heb beryglu planhigion ac anifeiliaid, a'u cynefinoedd, yn eu holl amrywiaeth a helaethrwydd.

Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl’au)

2.2. Ffrwyth rhaglen weithredu ar gyfer gwarchod a defnyddio bioamrywiaeth mewn ffordd gynaliadwy yw'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Cafodd y rhaglen hon ei pharatoi gan Lywodraeth y DU er mwyn cyflawni'i rhwymedigaeth o dan Erthygl 6 o'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth. Roedd *Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU*[3] yn cynnig y dylid prisio a pharatoi cynlluniau gweithredu, ynghyd â phennu targedau er mwyn gwarchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau mwyaf prin a/neu'r rhai sydd mewn perygl. Ar y dechrau, sefydlwyd Grwp Llywio ar lefel y DU i gydgysylltu'r gwaith o baratoi'r cynlluniau gweithredu hyn ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Ym 1955, argymhellodd y Grwp Llywio[4] y dylid hyrwyddo'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol am eu bod yn fodd i roi targedau cenedlaethol ar waith yn lleol, a hefyd yn fodd i roi ar waith yr elfen yn y strategaethau datblygu cynaliadwy sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.

2.3. Yng Nghymru ac ar lefel y DU, sefydlwyd Grwpiau Cynghori ar Faterion Lleol i roi cyngor a rhannu arferion da ynghylch paratoi a rhoi'r Cynlluniau Gweithredu ar waith. Roedd Nodyn Cyfarwyddyd cyntaf y DU[5] yn disgrifio'n fanylach swyddogaethau'r Cynlluniau Gweithredu, sef:

- Sicrhau bod ardaloedd lleol yn rhoi'r targedau cenedlaethol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd, fel y'u nodir yng Nghynllun Gweithredu'r DU, ar waith mewn ffordd effeithiol;
- Nodi targedau ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd sy'n briodol i'r ardal leol, ac sy'n adlewyrchu gwerthoedd y bobl leol;
- Datblygu partneriaethau lleol effeithiol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn y tymor hir;

---

[3] *Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r DU* (1994), ISBN 0-10-124282-4

[4] Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r DU - Cyfrol II *Cynlluniau Gweithredu*, 1995, ISBN 0-11-753228-2

[5] Guidance Note (GN) 1 - *An Introduction*

- Codi ymwybyddiaeth am yr angen i warchod bioamrywiaeth yn y cyd-destun lleol;
- Sicrhau bod cyfleoedd i warchod a gwella'r adnodd cyfan sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn;
- Gosod sylfaen ar gyfer monitro hynt y gwaith o warchod bioamrywiaeth ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol.

Dulliau eraill o gefnogi bioamrywiaeth

2.4. Un rhan yn unig o ddull y DU o fynd ati i warchod ei hamrywiaeth fiolegol naturiol yw'r cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth, ac mae tair prif nodwedd i'r dull hwnnw, sef :

- Gwarchod a rheoli'r bioamrywiaeth leol a geir mewn un ardal ddaearyddol benodol (gan gynnwys safleoedd Natura 2000 a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig);
- Mesurau arbennig i warchod rhai rhywogaethau lle bynnag y'u ceir;
- Mesurau ar gyfer cefn gwlad yn gyffredinol (h.y. na chânt eu cyfyngu i safleoedd dynodedig) – yn eu plith mae cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

2.5. Mae llawer o fesurau cadwraeth y DU, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwarchod safleoedd a rhywogaethau, yn deillio o rwymedigaethau rhyngwladol, megis Confensiwn Bern a Chonfensiwn Bonn, a Chyfarwyddebau'r UE ar Adar a Chynefinoedd.

2.6. Mae gan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth gyfraniad arbennig i'w wneud i gadwraeth, a'r cyfraniad hwnnw'n un sy'n ategu mesurau eraill:

- am eu bod yn cynnwys targedau biolegol ar gyfer cynnal a (lle bo modd) sicrhau cynnydd ym mhoblogaeth y rhywogaeth/maint y cynefin o dan sylw ac, os yn briodol, cynnydd yn eu hystod a'u dosbarthiad;
- oherwydd y gallent fod yn gymwys mewn unrhyw le yn y wlad - gan gynnwys ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig;
- am eu bod wedi'u gwreiddio mewn partneriaethau eang eu sail, sy'n cynnwys y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, yn enwedig ar y lefel leol.

Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol

2.7. Caiff CGBLl'au eu paratoi gan bartneriaethau lleol sy'n cynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Mae yna bedair ar hugain o bartneriaethau yng Nghymru ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio lleol (un partneriaeth a geir ar gyfer ardaloedd Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro).

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC)

2.8. Swyddogaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yw dod â'r sefydliadau allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd i

hyrwyddo'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru, monitro'r camau hynny a chynghori'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cylch. Sefydlwyd PBC ym 1996, ar yr un pryd â grwpiau tebyg ar gyfer rhannau eraill o'r DU, yn dilyn argymhellion Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU.

2.9. Bellach, o ganlyniad i fentrau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, mae gwybodaeth ar gael am y cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd i'w gweld mewn amryfal ardaloedd yng Nghymru. Yn 2001, penododd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru hwylusydd CGBLl llawn amser i helpu'r partneriaethau CGBLl trwy rannu cyngor, gwybodaeth ac arferion da.

Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2.10. O dan adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rhoddir dyletswyddau i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â gwarchod bioamrywiaeth. Bwriad y dyletswyddau hyn yw gwneud y broses o baratoi cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth yn un statudol. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi ystyriaeth i fioamrywiaeth wrth arfer ei holl swyddogaethau; a rhaid iddo gymryd camau i warchod cynefinoedd a rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys ar restr neu restrau a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu annog eraill i gymryd y camau hynny. Cyhoeddwyd rhestr adran 74 ym mis Tachwedd 2002.

Rôl yr Awdurdodau Lleol

2.11. Nid yw adran 74 yn gymwys i'r awdurdodau lleol, ond ceir cynnwys y partneriaethau lleol mewn unrhyw fesurau a fabwysiedir gan y Cynulliad wrth iddo ymgymryd â'r ddyletswydd i annog eraill i gymryd camau i warchod bioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella bioamrywiaeth trwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol[6], ac fel y nodir yn Adran 2 uchod, mae Dangosydd Perfformiad newydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2002-03 yn gwneud CGBLl'au yn ofynnol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae *Polisi Cynllunio Cymru*[7] yn annog yr awdurdodau lleol i fabwysiadu CGBLl'au fel canllawiau cynllunio atodol.

Cyllido

2.12. Yn ystod 2000-01 a 2001-02, cyfrannodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru swm o £660,000 o'i raglen grantiau ar gyfer cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu £200,000 ar gyfer CGBLl'au ym 2002-03, a bydd yr arian hwn hefyd yn cael ei ddarparu trwy grantiau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun i Gymru 2001*, Hydref 2001, ISBN 0 7504 2773 6
[7] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Polisi Cynllunio Cymru*Mawrth 2002, ISBN 0 7504 2854 6

3 Cymorth i weithredu'n lleol ar fioamrywiaeth

Hynt y Gwaith

3.1. Mae chwech o blith y pedair partneriaeth ar hugain yng Nghymru wedi cyhoeddi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl'au), ac mae'r wyth cynllun arall ar ffurf ddrafft. Mae'r broses o'u rhoi ar waith yn mynd rhagddi ym mhob partneriaeth. Ceir copi yn **Atodiad 1** o'r asesiad a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru o hynt y gwaith o weithredu'r CGBLl'au. Mae gan saith o'r partneriaethau swyddogion parhaol, llawnamser, mae gan naw ohonynt swyddogion dros dro neu ran-amser, ond nid oes gan wyth unrhyw swyddog penodol sy'n gweithio ar y CGBLl'au. Y prif bethau a oedd yn rhwystro'r cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol rhag cael eu rhoi ar waith, fel y nodir yn Adran 1 uchod, oedd diffyg ymrwymiad, adnoddau a gwybodaeth.

Ymrwymiad gwleidyddol i fioamrywiaeth ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol

3.2. Mae'r adolygiad wedi dangos bod yn rhaid wrth ymrwymiad gwleidyddol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â bioamrywiaeth ar y lefel leol. Rydym yn ymwybodol o'r rhan allweddol y mae gan y partneriaethau lleol i'w chwarae o safbwynt cyrraedd targedau cenedlaethol, ond fe'n trawyd yn benodol gan y ffaith eu bod yn dibynnu ar nifer cymharol fach o unigolion brwdfrydig. Clywsom fod y partneriaethau'n gweithio'n dda yn ystod y cyfnod cynllunio, ond nad ydynt yn gweithio cystal pan ddaw hi'n fater o weithredu, a hynny am fod diffyg ymrwymiad o du uwch swyddogion neu wleidyddion yn y sefydliadau sy'n bartneriaid.

3.3. Credwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad a dangos ei hymrwymiad i fioamrywiaeth mewn dwy ffordd: trwy roi rhan ganolog i ystyriaethau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn ei pholisïau a'i blaenoriaethau, a thrwy gynorthwyo gyda'r gwaith o gyrraedd targedau cenedlaethol ar y lefel leol. Un enghraifft amlwg o roi lle canolog i fioamrywiaeth yw'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng twf economaidd a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid rhoi rhan ganolog i fioamrywiaeth wrth fynd ati i lunio polisïau, yn hytrach na'i hystyried yn fater atodol ar ddiwedd y broses. Trwy wneud hyn, gall ystyriaethau sy'n ymwneud â chadwraeth helpu i lywio penderfyniadau polisi, yn hytrach na chael eu gweld fel materion sy'n llesteirio cynnydd economaidd.

3.4. Rydym yn croesawu'r pwyslais ar y rhan allweddol a roddir i warchod bioamrywiaeth yn y canllawiau cynllunio diwygiedig *Polisi Cynllunio Cymru*, ond rydym yn awgrymu bod angen diwygio Nodyn Cyngor Technegol 5 (Cadwraeth Natur) er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion o ran bioamrywiaeth mewn ffordd briodol.

3.5. Yn ogystal â sicrhau bod bioamrywiaeth yn ganolog i'w hystyriaethau hi ei hun, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael

ei hintegreiddio â pholisïau a blaenoriaethau'r cyrff y mae'n eu noddi. Unwaith eto, byddem yn disgwyl i hwn fod yn amcan trawsbynciol craidd yn hytrach nag yn rhywbeth atodol.

Argymhelliad 1: bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arweiniad yn y maes trwy roi rhan ganolog i ystyriaethau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn ei pholisïau a'i blaenoriaethau hi, a rhai'r cyrff y mae'n eu noddi.

3.6. Mae gweithredu ar y lefel leol yn gwbl allweddol er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd. Er hynny, nid oes unrhyw ddyletswyddau statudol ar yr awdurdodau lleol mewn perthynas â bioamrywiaeth. Ar y lefel leol, mae angen mwy o ymrwymiad oddi wrth lywodraeth leol, yn enwedig o ystyried y rôl allweddol sydd ganddi o safbwynt cefnogi partneriaethau CGBLl. Rydym wedi clywed rhai yn dadlau o blaid gwneud bioamrywiaeth yn un o ddyletswyddau statudol yr awdurdodau lleol, ac eraill yn sôn am ffyrdd o sicrhau mwy o ymrwymiad trwy'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, er enghraifft, trwy gynnwys bioamrywiaeth fel un o'r dangosyddion mewn Cynlluniau Cymunedol. O ystyried bod mwy a mwy o ddyletswyddau statudol gan yr awdurdodau lleol, nid ydym wedi'n hargyhoeddi mai dyma'r ateb. Er hynny, rydym yn argymell y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i fanteision ac anfanteision y dull hwn a dulliau eraill o gryfhau ymrwymiad llywodraeth leol i weithredu'n lleol ar fioamrywiaeth. Yn y cyfamser, un ffordd o sicrhau bod blaenoriaethau o ran bioamrywiaeth wrth wraidd ystyriaethau lleol yw trwy mabwysiadu CGBLl'au fel canllawiau cynllunio atodol, ac fel un o'r cynlluniau sy'n sail i Strategaethau Cymunedol, a byddem yn disgwyl gweld pob awdurdod cynllunio lleol yn gwneud hyn.

Argymhelliad 2: bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried sut i gryfhau ymrwymiad llywodraeth leol i weithredu'n lleol ar fioamrywiaeth, ac yn pwyso ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i fabwysiadu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl'au) fel canllawiau cynllunio atodol, a'u defnyddio'n sail ar gyfer eu Strategaethau Cymunedol;

3.7. Mae CGBLl'au yn sail ar gyfer monitro hynt y gwaith o warchod bioamrywiaeth ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol. Os ydynt i gyrraedd y targedau mewn perthynas â rhywogaethau a chynefinoedd, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cydgysylltu â chynlluniau cenedlaethol, ond mae'n bwysig nad anghofir y blaenoriaethau *lleol*. Mae lle i gydgysylltu strategaethau'n well a rhoi mwy o bwyslais ar osod targedau'n lleol. Rydym o'r farn bod angen strategaeth a chanllawiau ar fonitro ac adrodd ar y lefel leol sy'n ategu blaenoriaethau cenedlaethol o ran gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd. Rydym yn awgrymu mai Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ddylai yrru'r argymhellion hyn yn eu blaenau.

Argymhelliad 3: bod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mynd ati i sicrhau bod gwaith y strategaethau a'r partneriaethau lleol a chenedlaethol yn cael ei gydgysylltu'n well, a'u bod yn rhoi mwy o bwyslais ar bennu targedau'n lleol.

Argymhelliad 4: bod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cymryd yr awenau wrth ddatblygu strategaeth a chanllawiau cysylltiedig ar fonitro ac adrodd am gamau gweithredu lleol ym maes bioamrywiaeth.

3.8. Rydym wedi clywed hefyd nad oedd y partneriaethau CGBLl a'r partneriaethau cenedlaethol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yn cyfathrebu'n dda iawn â'i gilydd ar y dechrau, ond bod y sefyllfa hon wedi gwella ar ôl i hwylusydd CGBLl'au gael ei benodi gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) i gydgysylltu gweithgarwch ar y lefel leol ac ar y lefel genedlaethol. Mae angen parhau i wella'r ffordd y mae'r partneriaid cenedlaethol a lleol yn cyfathrebu â'i gilydd, ac rydym o'r farn bod lle hefyd i'r partneriaethau lleol wella'r ffordd y maent yn cyfnewid gwybodaeth.

Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i weithredu ar yr ymrwymiad gwleidyddol

3.9. Dylid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i fodloni targedau cenedlaethol ar y lefel leol, a bod yr adnoddau hynny yn cyfateb i'r gefnogaeth gynyddol ar welir ar y lefel wleidyddol. Mae angen cyllid penodol o ffynonellau diogel ar y partneriaethau bioamrywiaeth lleol, yn benodol er mwyn cyllido swyddogion CGBLl llawnamser i'w cynorthwyo yn eu gwaith a'u cynorthwyo i roi camau lleol ar waith. Er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau ariannol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hadolygiad, rydym yn argymell bod y ffynonellau cyllid yn cael eu symleiddio er mwyn sicrhau bod y partneriaethau'n manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael eisoes. Rydym yn argymell hefyd fod y gofynion o ran arian cyfatebol yn cael eu gwneud yn gwbl glir, a bod cylch arian grant Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cael ei gysoni â chylchoedd cynllunio cyllidebau'r sefydliadau sy'n rhoi arian cyfatebol. Dylid hefyd ystyried datblygu dull o roi cyllid penodol ar gyfer cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol, o bosibl trwy gyllido partneriaethau'n uniongyrchol. Yn ystod ein hadolygiad hefyd, daeth yn amlwg bod lle i'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, ynghyd â'r sectorau preifat a gwirfoddol, gydweithio'n well i gyllido'r partneriaethau.

Argymhelliad 5: bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal adolygiad o'r trefniadau cyllido er mwyn sicrhau bod y ffynonellau cyllido sydd ar gael i gefnogi camau gweithredu lleol ar fioamrywiaeth yn gwbl glir, ac er mwyn eu symleiddio a'u cysoni.

Argymhelliad 6: bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod arian penodol ar gael i ariannu'r Hwylusydd CGBLl a benodwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac i ariannu swyddog CGBLl parhaol a llawnamser ar gyfer pob partneriaeth, ac yn ystyried dulliau penodol o ariannu camau gweithredu ar fioamrywiaeth yn lleol, o bosibl trwy ariannu partneriaethau'n uniongyrchol.

Sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd ar gael

3.10. Cyn pennu a monitro targedau, rhaid wrth ddata cyson, dibynadwy ac amserol ar fioamrywiaeth. Mae cefnogaeth eang i'r syniad o ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol o Ganolfannau Cofnodion Lleol, a fyddai'n darparu un ffynhonnell o wybodaeth am rywogaethau a chynefinoedd. Rydym yn argymell bod rhwydwaith o'r fath yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, gan adeiladu ar y prosiect peilot a gafwyd ym Mhowys. Rydym hefyd o blaid parhau i ddatblygu'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Lleol ar y we.

Argymhelliad 7: bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu i ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol o Ganolfannau Cofnodion Lleol, gan adeiladu ar y prosiect peilot a gafwyd ym Mhowys.

3.11. Fel y nodir uchod, mae'r partneriaethau'n dibynnu'n drwm ar nifer bach o arbenigwyr. Mae'n bwysig, yn ein barn ni, bod sefydliadau cenedlaethol, megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, yn trefnu bod mwy o gymorth gan arbenigwyr ar gael ar y lefel leol. At hynny, dylai'r awdurdodau lleol ymrwymo i ychwanegu at eu harbenigedd ecolegol a'u harbenigedd mewn perthynas â CGBLl'au. Rydym yn credu hefyd fod tipyn o le i harneisio sgiliau gwirfoddolwyr ac i gynorthwyo cyrff y sector gwirfoddol i ychwanegu at yr arbenigedd sydd ganddynt.

Argymhelliad 8: bod cyrff Cymru gyfan, megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried sut i drefnu bod mwy o gymorth gan arbenigwyr ar gael yn lleol, a sut i ychwanegu at arbenigedd ecolegol yr awdurdodau lleol, ac at eu harbenigedd mewn perthynas â CGBLl'au.

3.12. Er mwyn atal y dirywiad yn y sylfaen sgiliau, rydym yn argymell bod sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn cael eu hannog i gynnig mwy o gyrsiau mewn gwyddor cadwraeth, tacsonomeg, a sgiliau ymarferol ym maes rheoli tir, ac i geisio denu mwy o fyfyrwyr i ddilyn y cyrsiau hynny. Ar yr un pryd, mae angen ennyn brwdfrydedd ymhlith pobl ifanc ac oedolion dros gadwraeth trwy gynnal gweithgareddau mewn ysgolion a cholegau. Rydym o'r farn hefyd y dylai Prifysgolion Cymru gael eu hannog i sicrhau bod eu hymchwil academaidd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ymchwil yng nghynllun gweithredu bioamrywiaeth y DU.

Argymhelliad 9: bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ELWa yn ystyried sut i: sicrhau bod mwy o gyrsiau mewn gwyddor cadwraeth, tacsonomeg a sgiliau ymarferol ym maes rheoli tir yn cael eu cynnig gan sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a'u bod yn ceisio denu mwy o fyfyrwyr i ddilyn y cyrsiau hynny; annog y prifysgolion i sicrhau bod ymchwil academaidd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ymchwil yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

Gweithredu'n lleol trwy bartneriaethau

3.13. Trwy sicrhau ymrwymiad gwleidyddol ac ariannol y rheini sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn lleol, a thrwy sicrhau gwell dealltwriaeth o

bwysigrwydd bioamrywiaeth, gallai'r partneriaethau lleol ganolbwyntio ar *weithredu'r* blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Rydym wedi clywed am y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud eisoes gan y partneriaethau, megis y gwaith a ddisgrifir yn astudiaethau achos Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[8]. O gael y cymorth ychwanegol hwn, byddai canolbwyntio ar weithredu yn helpu'r partneriaethau i ddenu diddordeb yn lleol a rhoi rhan i fwy o bobl leol ac amryfal bartneriaid, megis y gymuned fusnes. Yn ein barn ni, mae'n arbennig o bwysig bod proffil uwch yn cael ei roi mewn ardaloedd trefol i waith y partneriaethau, gan nad yw llawer yn cysylltu trefi a dinasoedd â chadwraeth.

3.14. Yn olaf, rydym yn argymell bod 'gwobrau bioamrywiaeth' yn cael eu sefydlu er mwyn tynnu sylw at arferion da o ran cadwraeth ac er mwyn annog sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Argymhelliad 10: bod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn sefydlu 'gwobrau bioamrywiaeth' er mwyn tynnu sylw at arferion da o ran cadwraeth ac er mwyn annog sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

[8] Atodiad 2, 'Adolygiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol', casglwyd y sylwadau ynghyd gan Hwylusydd CGBLl Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - mae copi ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cymru.gov.uk

Atodiad 1

Ymatebwyr

Daeth ymatebion i law oddi wrth y sefydliadau canlynol a wahoddwyd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r adolygiad. Mae manylion yr ymatebion a ddaeth i law trwy ddulliau electronig ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cymru.gov.uk

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
BTCV Cymru
Butterfly Conservation Wales
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn (yr ymateb wedi'i ategu gan sylwadau'r swyddog CGBLl)
Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Dinas a Sir Caerdydd
Elizabeth Alice May
Grŵp Bioamrywiaeth Cymru
Innogy plc
Partneriaeth Bioamrywiaeth Caerffili
Partneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (Cymru)
Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Y Sefydliad Priffyrdd a Thrafnidiaeth
Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymru

Atodiad 2

Hynt Gwaith y CGBLI'au yng Nghymru

Awdurdod	Yr amser a neilltuir ar gyfer y CGBLI bob wythnos	Contract y Swyddog CGBLI yn Dod i Ben	Drafft	Cyhoedd-wyd	Gweithredu	Adrodd yn 2002
Ynys Môn	Llawnamser	Parhaol		✓	✓	✓
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Llawnamser	Parhaol		✓	✓	✓
Blaenau Gwent	2 ddiwrnod	Amh.	✓	✓	✓	✓
Pen-y-bont ar Ogwr	Rhan-amser	Parhaol		✓	✓	✓
Caerffili	Rhan-amser fel CGBLI Rhan-amser fel ecolegydd	Parhaol		✓	✓	✓
Caerdydd	Llawnamser	Mai 04		✓	✓	✓
Sir Gaerfyrddin	Llawnamser	Parhaol		✓	✓	✓
Ceredigion	4 awr	Amh.		✓	✓	✓
Conwy	6 diwrnod	Ebr 03	✓		✓	✓
Sir Ddinbych	Rhan-amser	Mawrth 03	✓		✓	
Sir y Fflint	Llawnamser (yn wag)	Ion 04	✓	✓	✓	✓
Gwynedd	Llawnamser	Parhaol	✓		✓	✓
Merthyr Tudful	1 diwrnod	Ion 03	✓		✓	✓

Sir Fynwy	Oriau	Amh.	✓		✓	✓
Castell-nedd Port Talbot	Llawnamser	Chw 05		✓	✓	✓
Casnewydd	Llawnamser	Ebrill 03	✓		✓	✓
Sir Benfro	20 awr	Amh.		✓	✓	✓
Powys	Llawnamser	Parhaol	✓	✓	✓	✓
Rhondda Cynon Taf	5 diwrnod	Amh.		✓	✓	✓
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Llawnamser	Parhaol		✓	✓	✓
Abertawe	Rhan-amser CGBLI Rhan-amser ar ddyletswyddau amgylcheddol eraill	Parhaol	✓		✓	✓
Tor-faen	1 diwrnod	Amh.	✓		✓	✓
Bro Morgannwg	Llawnamser	Mawrth 04		✓	✓	✓
Wrecsam	2 ddiwrnod	Parhaol		✓	✓	✓

Ffynhonnell: Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Ionawr 2003